DATGANIAD I'R WASG
15 Gorffennaf 2009

Y Berwyn yn frenin yng Ngwersyll Glan-llyn

Dydd Mawrth, 21 Gorffennaf bydd Dirprwy Brif Weinidog a'r gweindiog dros economi a thrafnidiaeth Cymru, Ieuan Wyn Jones yn ymweld â Gwersyll yr Urdd Glan-llyn ar lan Llyn Tegid ger y Bala. Am 1.30yp bydd yn agor bloc llety newydd Y Berwyn ac yn ystod y prynhawn bydd hefyd yn croesawu cwch enwog, Y Brenin Arthur yn ôl i'r Gwersyll ar lan Llyn Tegid.

Mae blociau cysgu Glan-llyn wedi newid llawer dros y blynyddoedd a Bloc y Berwyn yw'r diweddaraf i gael ei drawsnewid. Mae'r adeilad, sy'n dyddio'n ôl i'r wythdegau, wedi ei ailwampio'n gyfan gwbl ac erbyn hyn yn cysgu 48 o blant mewn 12 ystafell wely.

Mae'r gwelliannau wedi golygu ystafell ymolchi ymhob llofft, parlwr i arweinwyr cyrsiau, caban sychu dillad a chyfleusterau i'r anabl mewn dwy o'r llofftydd. Gosodwyd *sun pipes* trwy'r to, sydd wedi dod â golau naturiol i'r Berwyn am y tro cyntaf. Cafwyd cymorth ariannol gan Gronfa Datblygu Gwirfoddol Cyngor Gwynedd a chan gronfa Galluogi Gwynedd, Mantell Gwynedd.

Un o'r pethau cyntaf wnaeth Syr Ifan ab Owen Edwards pan agorwyd Glan-llyn yng Ngorffennaf 1950 oedd prynu cwch modur mawr a fyddai'n gallu cario deugain o wersyllwyr ar y tro ar Lyn Tegid.

Wedi blynyddoedd lu o gario gwersyllwyr o un pen Llyn Tegid i'r llall, dirywiodd cyflwr y Brenin Arthur erbyn diwedd y chwedegau. Roedd y peiriant a'r corff yn fregus, ac o ganlyniad croesawyd Brenin Arthur II i Lan-llyn. Cwch llai o faint oedd Brenin Arthur II ond llawer yn fwy dibynadwy.

Ar ôl cael ei ddefnyddio yn ddi-baid, daeth dyddiau'r Brenin Arthur II ar Lyn Tegid i ben yn niwedd wythdegau'r ganrif ddiwethaf. Fe'i rhoddwyd i gadw yng nghwt y Brenin yn y Gwersyll, lle bu'n segur am flynyddoedd.

Yn ddiweddar, ail daniwyd y brwdfrydedd i godi'r cwch ar ei draed er mwyn ei ddefnyddio yn ddyddiol fel rhan o weithgareddau'r Gwersyll unwaith eto. Diolch i grant gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, mae hyn wedi bod yn bosib i'w gyflawni, ac mae'r Brenin Arthur bellach wedi'i hadfer i'w gogoniant gwreiddiol.

Yn ystod y diwrnod bydd cyflwyniadau ffurfiol, cyfle i hel atgofion am y Gwersyll, te Cymreig i bawb heb anghofio taith llyn ar y Brenin Arthur cyn diwedd y prynhawn.

Meddai Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Cymru: ‘‘Mae'r Urdd yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'n iaith, ein diwylliant, a'n pobl ifanc.

Mae gwersylloedd yr Urdd yn rhoi hwb sylweddol i'r economi leol – gyda Glan-llyn yn cyflogi oddeutu 50 o bobl, y mwyafrif helaeth ohonyn nhw'n byw yn ardal y Bala", meddai Mr Jones, sy'n Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

"Mae'n bleser eithriadol i weld Glan-llyn yn ail fuddsoddi'n gyson yn ei adnoddau ac yn mynd o nerth i nerth."

Yn ôl Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru;
‘‘Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gael croesawu'r Brenin Arthur yn ôl i dir y Gwersyll. Mae'r cwch yn perthyn i draddodiad y Gwersyll ac ni fyddai Llyn Tegid yr un fath hebddo. Mae cynnwrf mawr hefyd at weld Bloc y Berwyn ar ei newydd wedd. Mae'r datblygiad wedi codi safonau yn ogystal â dod a chyfleusterau newydd i'r gwersyll, gydag athrawon bellach yn ffraeo pwy sy'n cael cysgu yn y Berwyn yn hytrach nag osgoi'r lle! Mae ein diolch yn fawr i'r holl gronfeydd am eu cyfraniad gwerthfawr i'r cynllun arbennig hwn.’’

Mae croeso i unrhyw un hoffai fod yn bresennol yng Nglan-llyn ar 21 Gorffennaf am 1.30yp gysylltu â Gwersyll Glan-llyn ar 01678 541000.

Diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Wyn, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613112, manonwyn@urdd.org. Neu 07976 330360.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.